**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/PO/101/24

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

14 Mawrth 2024

Annwyl Llyr Gruffydd AS,

Diolch am eich llythyr ar 5 Chwefror ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gan amgáu *Adroddiad y Pwyllgor ar berfformiad Dŵr Cymru*. Mae ein sector dŵr yn wynebu her uniongyrchol a digynsail; rhaid iddo ddatgarboneiddio, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi'r golled mewn bioamrywiaeth, i gyd yn erbyn cefndir yr argyfwng costau byw presennol. Fodd bynnag, rwyf wedi dweud droeon o'r blaen, yn y Senedd a'r tu allan iddi, fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ddau gwmni dŵr yng Nghymru weithio'n llawer caletach i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid ar draws pob maes gweithredu.

O'r 12 argymhelliad a amlinellwyd yn yr adroddiad, nodaf fod wyth wedi eu cyfeirio at Dŵr Cymru ac Ofwat. Byddant yn ymateb ar wahân a byddaf yn darllen eu hymateb gyda diddordeb gan ddisgwyl gweld uchelgais, dull o weithio mewn partneriaeth ac ymdrech i wella. Fe welwch ymateb i bob un o'r pedwar argymhelliad sy'n weddill a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

***Argymhelliad 4.*** *Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflwyno gwaharddiad ar weips gwlyb sy'n cynnwys plastig cyn gynted â phosibl. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cyd ar waharddiad arfaethedig ac ar yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer cyflwyno gwaharddiad yng Nghymru.*

**Derbyn mewn egwyddor:** Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ledled y DU, rydym yn dadansoddi'r ymatebion, ac mae rhai ohonynt wedi bod yn fanwl ac yn wyddonol eu natur. Byddwn yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion yn fuan. Bydd hyn yn amlinellu ein camau nesaf ac yn darparu amserlen ddangosol ar gyfer unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor a'r Senedd fel rhan o'r broses gyhoeddi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Argymhelliad 8.*** *Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol, gan gynnwys Dŵr Cymru, nodi ffyrdd o gyfathrebu'n effeithiol ddull Cymru o fynd i'r afael â gollyngiadau charthion o orlifoedd storm er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r dull.*

**Derbyn:** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ein dull o fynd i'r afael â gorlifoedd stormydd yn gyhoeddus drwy Ddatganiadau Ysgrifenedig a Llafar y Senedd, gan gynnwys y Datganiad Llafar ar Ansawdd Dŵr a ddarparwyd gennyf yn fwyaf diweddar ar 12 Rhagfyr. Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, rwyf hefyd wedi rhoi tystiolaeth ar ein dull o ymdrin â gorlifoedd stormydd yn eich sesiynau tystiolaeth. Yn ogystal, rwyf wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU i Ansawdd Dŵr (gweler Ansawdd Dŵr yng Nghymru - Pwyllgorau - Senedd y DU). Byddwn yn parhau i gyfleu ein dull drwy'r llwybrau ffurfiol hyn, yn ogystal ag yn fwy anffurfiol drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod cynifer o'r cyhoedd â phosib yn deall ein dull gweithredu. Ar ben hynny, rwyf i a'm swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â Dŵr Cymru i drafod pob maes gweithredu a byddwn yn parhau â'r trafodaethau hyn, gan gynnwys ar gyfathrebu ar orlifoedd storm.

***Argymhelliad 10.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn pwerau gorfodi CNC er mwyn galluogi'r rheoleiddiwr i dderbyn ymrwymiadau amgylcheddol am dorri amodau trwyddedau o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad ei ystyriaeth.*

**Derbyn mewn egwyddor:** Gall sancsiynau sifil fel Ymgymeriadau Amgylcheddol (UE) fod yn offeryn gorfodi defnyddiol yn ogystal â phwerau gorfodi eraill. Nodaf fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes bwerau i ddefnyddio'r UE mewn rhai achosion er nad yw hyn wedi'i ymestyn i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

***Argymhelliad 12.*** *Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i leddfu'r pwysau ar y system garthffosiaeth ers cyhoeddi Adroddiad y Pwyllgor ar orlifoedd stormydd yng Nghymru (Mawrth 2022). Dylai hyn gynnwys cynnydd tuag at weithredu'r argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o Systemau Draenio Cynaliadwy.*

**Derbyn:** Ym mis Gorffennaf 2022, sefydlwyd y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd ar draws y llywodraeth a diwydiant i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru ac i nodi cynlluniau manwl i sbarduno newid a gwelliant cyflym. Mae wedi cyhoeddi map ffordd gorlifoedd stormydd ar gyfer Cymru, sydd i'w weld ar-lein yn y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd | GOV. CYMRU. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi amcanion clir a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer cyflawni gwelliannau i reoli gorlifoedd nawr ac yn y tymor hir.

O ran Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau), bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod yr adolygiad a wnaed gan Arup wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023 a gwnaeth fwy na 70 o argymhellion yn ymwneud â deddfwriaeth, canllawiau a gweithredu. Ers hynny, mae fy swyddogion wedi cynnal rhaglen adolygu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth weithredu ar gyfer yr argymhellion. Rydym wedi gwneud cynnydd da hyd yn hyn. Mae hyn yn cynnwys sefydlu grŵp Cymuned Ymarfer (COP), a gyfarfu gyntaf ym mis Rhagfyr; cwmpasu Cyfrifiannell Symiau Gohiriedig Cymru Gyfan; a datblygu Cynllun Gweithredu SDCau, y byddaf yn ei gyhoeddi maes o law.

A gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith parhaus i graffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella ansawdd ein dŵr yng Nghymru. Mae llawer i'w wneud o hyd,

ond rwy'n hyderus ein bod ar y trywydd iawn i barhau i gyflawni gwelliannau ystyrlon i'n hamgylchedd dŵr.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change